# Siarter Myfyrwyr



# Gwerthoedd ein coleg

Dangos parch at bawb

Yn cael ein gyrru gan ddatrysiadau

Rhoi'r dysgwr yn gyntaf bob tro

Gweithredu'n onest

Yn Coleg Gwent, rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol sydd wedi’u llywio gan ymchwil ac sy’n darparu cyfleoedd dysgu sy’n gwella gyrfa i’ch herio a’ch ysbrydoli chi.

Rydym yn cydnabod bod gan y staff a’r dysgwyr rôl i’w chwarae wrth sicrhau dysgu galwedigaethol ac academaidd o safon uchel, lle mae dysgwyr yn cael eu gweld fel partneriaid yn eu profiad dysgu a lle mae adborth a chyfraniad dysgwr yn cael ei werthfawrogi a’i drin fel cyfle i wella’n barhaus.

Nid yw’r Siarter Myfyrwyr hon yn ddogfen sy’n rhwymol yn gyfreithiol, ond mae wedi’i chynllunio i sicrhau bod gan yr holl fyfyrwyr fynediad at driniaeth deg a chyfartal wrth astudio yn Coleg Gwent.

Mae’r Siarter Myfyrwyr yn nodi’r gwasanaethau y byddwn yn eu cynnig i’n dysgwyr ac mae’n amlinellu’r cyfrifoldebau sydd gennym y gyffredin, gan gynnwys ymddygiadau disgwyliedig fel y nodwyd yn y Cod Ymddygiad Dysgwr. Mae’r Siarter hefyd yn amlinellu sut rydym am gael partneriaeth ddysgu wirioneddol sy’n cefnogi eich rhagoriaeth a’ch cyflawniad personol ac academaidd.

# Beth allwch chi ei ddisgwyl gan Coleg Gwent bob amser

## Byddwn yn:

- Effeithlon, yn gywir ac yn gwrtais wrth ddelio â chi
- Cynnig triniaeth gyfartal i bawb, heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, credoau crefyddol a dim crefydd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol
- Cynnig amgylchedd dysgu sy’n ffafriol i ddysgu ac sy’n rhydd rhag aflonyddwch a gwahaniaethu
- Eich trin chi fel partner yn eich Taith Ddysgu, a’ch annog i gynnal eich cysylltiad â’r Coleg ar ôl i chi adael fel dysgwr gydol oes
- Cymryd yr holl gamau rhesymol i gynnig amgylchedd diogel ac iach, ac un sy’n ystyriol o gynaliadwyedd amgylcheddol
- Diogelu’r holl wybodaeth bersonol rydych yn ei rhannu gyda ni a chydymffurfio â gofynion rheoliadau Diogelu Data
- Gweithio gyda’r partneriaid Sefydliadau Addysg Uwch a chyrff dyfarnu i ddiogelu buddiannau myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau, megis newidiadau sylweddol i sut caiff cwrs ei gyflwyno neu derfynu unrhyw gwrs, er mwyn lliniaru’r effaith negyddol arnoch chi.

# Beth allwch chi ei ddisgwyl gan Coleg Gwent bob amser

## Dylech chi:

- Gydymffurfio â thelerau holl bolisïau a gweithdrefnau Coleg Gwent a Chod Ymddygiad Dysgwyr Coleg Gwent
- Cyrraedd ar amser, a bod yn barod i neilltuo amser i gefnogi eich astudiaethau a bod yn gwrtais wrth ymwneud â chyd-fyfyrwyr ac aelodau tîm y Coleg
- Gweithio gyda ni i gynnal cymuned ddysgu sy'n ffafriol i ddysgu ac astudiaeth academaidd
- Rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw ddiweddariadau a newidiadau i'ch amgylchiadau personol a allai effeithio ar eich cyfleoedd fel myfyriwr
- Ymgysylltu'n weithredol â'r holl gyfleoedd a gynigir i chi a all wella eich llwyddiannau proffesiynol a phersonol
- Parchu'r amgylchedd ffisegol, aelodau staff, cyd-fyfyrwyr a'n cymuned o ddysgwyr
- Cymryd cyfrifoldeb personol am ein cefnogi ni i hyrwyddo amgylchedd diogel ac iach

# Cyn i chi ymuno â ni:

## Byddwn yn:

Cynnig arweiniad a gwybodaeth gywir a diduedd i chi ynghylch y cyrsiau sydd ar gael ar draws y coleg ac yn prosesu eich cais drwy ddilyn gweithdrefn effeithlon a theg. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Cynnig arweiniad a gwybodaeth gywir ac am ddim ynghylch:
  - Yr ystod lawn o gyrsiau a chymwysterau sydd ar gael,
  - amlinelliad o'r cyrsiau a'r gofynion mynediad ar gyfer
  - pob cwrs, a chyfleoedd a llwybrau dilyniant
  - Cyfleusterau ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu
  - anableddau, mae yna gyfleusterau arbenigol ar gael ar bob campws
  - Rheoliadau a pholisïau clir a thryloyw, amserlenni
  - cwrs/rhaglen, dyddiadau tymhorau a gwybodaeth ynghylch
  - ffioedd cyrsiau a dilead ffioedd fel sy'n briodol
  - Cymorth ariannol sydd ar gael, e.e. Cyllid Myfyrwyr Cymru a bwrsariaethau i ddysgwyr

- Sicrhau bod pob cais yn cael ei ystyried yn effeithlon ac yn deg, yn unol â'n Polisi Derbyniadau:
  - Bydd eich cais yn cael ei gydnabod cyn pen deg diwrnod gwaith ohono yn ein cyrraedd
  - Byddwch un ai'n cael cynnig lle amodol/diamod ar eich dewis gyntaf o gwrs, neu byddwch yn cael cynnig cyngor ac arweiniad manylach i drafod eich opsiynau
  - Byddwn yn llunio rhaglen dysgu briodol, wedi'i theilwra i'ch anghenion chi ac yn seiliedig ar eich cymwysterau cyfredol/disgwyliedig, profiad blaenorol a sgrinio
  - cychwynnol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am weithgareddau ymgeisio, megis:
    i. Gweithdrefnau cofrestru, gan gynnwys trefniadau penodol ar gyfer ceisiadau Sefydliadau Addysg Uwch
    ii. Unrhyw ddiwygiadau i'ch cwrs neu raglen astudio

- Gweithio gyda'n partneriaid Sefydliadau Addysg Uwch a chyrff dyfarnu i fodloni ein rhwymedigaethau cytundebol i fyfyrwyr, a chydymffurfio â chyfraith defnyddwyr fel yr amlinellir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# Cyn i chi ymuno â ni:

## Dylech chi:

- Ymgymryd â phob cyfle i sicrhau eich bod â'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnoch chi i wneud penderfyniad deallus ynghylch eich cwrs
- Dilyn yr holl gamau a amlinellir mewn cyfathrebiadau ceisiadau a chyn-cofrestru er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i gofrestru
- Cymryd yr amser i ymgymryd ag unrhyw waith darllen ymlaen llaw neu baratoadau academaidd eraill sy'n ofynnol ohonoch chi cyn i'ch cwrs ddechrau
- Ymgyfarwyddo â'r broses o drefnu cymorth ariannol ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen arnoch chi, a dechrau arni cyn gynted â phosibl
- Fel sy'n briodol, sicrhau eich bod yn ymwybodol o ffioedd eich rhaglen a'ch bod yn drefnus o ran talu'r rhain i'r Coleg, un ai ei eich hun, neu drwy drydydd parti (e.e. Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu nawdd)
- Sicrhau eich bod yn gyfarwydd â chyfleoedd i gael mynediad at Lwfans Myfyrwyr Anabl, a'ch bod yn manteisio ar hyn fel sy'n briodol

# Pan fyddwch yn dechrau astudio gyda ni:

## Byddwn yn:

- Cynnig amgylchedd dysgu diogel, iach ac addas i chi ddysgu ynddo, sy’n gynhwysol ac yn anwahaniaethol
- Cynnig amserlen gywir i chi a rhoi digon o rybudd ymlaen llaw cyn gwneud unrhyw newidiadau, mewn perthynas â’ch amserlen, neu eich cwrs
- Dynodi Tiwtor Personol i gynnig cymorth academaidd a bugeiliol i chi drwy gydol eich rhaglen
- Rhannu amserlenni a gweithdrefnau UCAS gyda chi fel sy’n briodol
- Rhoi mynediad at y llwyfan dysgu rhithiol perthnasol ar gyfer eich rhaglen astudio, a fydd yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol ynghylch eich cwrs, asesiadau a llawlyfr eich rhaglen
- Cyflwyno addysgu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar ymchwil a rheolaeth effeithiol o'ch dysgu
- Cynnal asesiadau gan roi sylw dyledus i safonau ansawdd gofynnol y corff dyfarnu neu’r sefydliad addysg uwch partner
- Sicrhau eich bod yn cael adborth adeiladol ar eich asesiadau yn brydlon, sy’n cefnogi eich dysg a’ch cyflawniad
- Eich cynnwys yn y broses o werthuso ansawdd eich rhaglen a darparu cyfleoedd i chi roi sylwadau ar eich profiad cyffredinol
- Cynnig cyfle i chi gymryd rhan gydag Undeb y Myfyrwyr a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol
- Cynnig ystod o wasanaethau cymorth, academaidd a bugeiliol, ar y cyd â phartneriaid eraill fel sy’n briodol
- Yn ystod eich rhaglen, sicrhau bod Gwasanaeth Gyrfaoedd a Dilyniant ar gael gyda’r nod o’ch helpu i archwilio eich camau nesaf

# Pan fyddwch yn dechrau astudio gyda ni:

## Dylech chi:

- Ddarllen a deall Cod Ymddygiad Dysgwyr y coleg, a glynu ato, gan ddangos parch at eraill a glynu wrth werthoedd y coleg
- Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun a bod yn barod i ymgysylltu â ffyrdd gwahanol o addysgu, dysgu ac asesu
- Sicrhau eich bod yn darllen y wybodaeth a ddarparwyd, yn gwirio negeseuon e-bost a diweddariadau neu gylchlythyrau perthnasol yn rheolaidd ac yn ceisio eglurhad am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall
- Ymgysylltu'n weithredol â'ch cwrs drwy fynychu a chymryd rhan ym mhob un o'r sesiynau a addysgir, cwblhau'r gwaith sy'n cael ei osod i chi ac ymgymryd ag unrhyw leoliadau gwaith perthnasol
- Cyflwyno gwaith i'w asesu o fewn y terfynau amser cyhoeddedig, a mynd i'r holl arholiadau
- Rhannu eich syniadau a'ch sylwadau ynghylch eich rhaglen a'ch profiad cyffredinol gyda ni drwy gynnig adborth drwy holiaduron (Gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS)), gwerthusiadau modiwlau neu drwy ddod yn Gynrychiolydd Dysgu a mynd i Fforymau Cyswllt Staff a Dysgwyr
- Ymgyfarwyddo â Coleg Gwent a rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau partneriaid dyfarnu perthnasol, a chydymffurfio â'r rhain bob amser
- Talu unrhyw ffioedd sy'n ofynnol yn brydlon
- Bod yn wrthrychol a chydnabod pan nad yw pethau'n mynd yn dda a chwilio am gyngor a chymorth priodol, ac annog cyd-fyfyrwyr i wneud hynny hefyd

# Pan fyddwch yn barod i symud ymlaen:

## Byddwn yn:

- Eich cynorthwyo ym mhob ffordd bosibl i drosglwyddo'n ddidrafferth i gyflogaeth a/neu astudiaethau pellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:
  - Ein proses Dilyniant Dysgwyr.
  - Rhyddhau dogfennaeth sy'n berthnasol i'r cymwysterau rydych wedi'u cyflawni
  - Darparu geirda angenrheidiol ar gyfer darpar gyflogwyr/sefydliadau addysgol
  - Cynnig cymorth ac arweiniad clir i'ch helpu i symud ymlaen at gyflogaeth/astudiaeth bellach, gan gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflogaeth, arweiniad cyffredinol ac arbenigol ar yrfaoedd a gwybodaeth ariannol yn ôl yr angen
- Cynnig cyfrwng i chi gadw mewn cysylltiad â ni ar ôl i chi symud ymlaen
- Dathlu eich llwyddiannau gyda chi

## Dylech chi:

- Ymgysylltu'n weithredol gyda deialog a gweithgareddau sy'n ymwneud â dilyniant
- Manteisio ar bob cyfle i sicrhau eich bod â'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnoch chi i wneud penderfyniad deallus ynghylch eich camau nesaf
- Ystyried cynnal eich cysylltiad â'r Coleg ar ôl i chi adael
- Dathlu eich llwyddiannau a'ch cyflawniadau

## Polisïau a Gweithdrefnau

Mae'r holl bolisïau i ddysgwyr ar gael ar Wefan Coleg Gwent (cyn-cofrestru) a thrwy CG Connect (ar ôl cofrestru).